Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Canllawiau profi cartrefi gofal

Profion Covid-19 PCR mewn cartrefi gofal. Rheoli trigolion a staff sy'n profi'n bositif am Covid-19 a threfniadau adrodd.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 Mai 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 4 Tachwedd 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-profi-cartrefi-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Cyflwyniad

Profion asymptomatig ar staff cartref gofal

Profi mewn cartrefi gofal sy'n adrodd achos posibl o Covid-19

Manylion cyswllt y Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer cartrefi gofal

Profi'r holl breswylwyr a staff mewn achosion sefydledig mewn cartrefi gofal

Rheoli preswylwyr a staff sy'n cael prawf positif o Covid-19

Adroddiadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn helpu darparwyr cartrefi gofal, y Byrddau Iechyd Lleol, yr awdurdodau lleol ac eraill i ddehongli a gweithredu'r polisi profi ar gyfer cartrefi gofal yng Nghymru. Ei brif bwrpas yw egluro sut gallwn ni leihau'r risg o drosglwyddo Covid-19 mewn lleoliadau cartrefi gofal preswyl. Nid yw'n ymdrin â phrofi pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i fynd i fyw mewn cartrefi gofal (ni waeth a gawsant eu derbyn i'r ysbyty gyda Covid-19 ai peidio) na phobl sy'n cael eu trosglwyddo rhwng cartrefi gofal, nac ar gyfer derbyniadau newydd o'r gymuned.

Mae diogelu ac amddiffyn y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn rhywbeth sy'n ganolog i ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19. Bydd pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a lleoliadau preswyl tebyg eraill ymysg y bobl sydd fwyaf agored i niwed, ac mae llawer ohonynt yn dibynnu ar ofal personol agos.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-profi-cartrefi-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'n hollbwysig profi ar raddfa fawr mewn cartrefi gofal er mwyn atal a rheoli achosion. Mae'n bwysig cynnal y profion hyn yn gyflym.

Profion asymptomatig ar staff cartref gofal

Fel rhan o becyn o fesurau ar gyfer rheoli Covid-19 mewn cartrefi gofal yng Nghymru ac ar gyfer diogelu'r preswylwyr a'r staff, fe aethom ni ati ar 15 Mehefin 2020 i gyflwyno rhaglen o brofion asymptomatig ar y staff. Gan ystyried y data a'r adborth a ddaeth gan y sector cartrefi gofal, y Byrddau Iechyd Lleol, yr awdurdodau lleol a'r undebau llafur, fe wnaethom ni ymestyn y rhaglen hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2020 er mwyn galluogi partneriaid statudol i benderfynu a ddylai staff mewn cartrefi gofal yn eu hardaloedd lleol gael eu profi bob wythnos ynteu bob pythefnos, a hynny drwy ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol yn seiliedig ar y data ynghylch achosion a throsglwyddiad Covid-19 yn eu cymuned leol ac yn seiliedig ar wybodaeth leol.

Erbyn hyn, dylid cynnal profion asymptomatig ar staff cartref gofal drwy Borthol Sefydliadau'r DU a labordai'r Lighthouse.

Mater i Lywodraeth Cymru o hyd fydd penderfynu ynghylch y polisi i ailbrofi unigolion sy'n cael canlyniad positif drwy brofion asymptomatig.

Mapiau proses i ddarparu canllawiau ar gyfer profion COVID-19 mewn cartrefi gofal.

Profi'r holl breswylwyr a staff mewn cartrefi gofal sydd ag achos posibl o Covid-19 mewn cartref sydd heb ei effeithio o'r blaen, neu mewn cartref gofal sydd heb gael achosion posibl nac achosion wedi'u cadarnhau yn y 28 diwrnod blaenorol

Y flaenoriaeth gyntaf yw ymateb yn gyflym i gartref gofal sy'n rhoi gwybod am ei

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-profi-cartrefi-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

achos symptomatig cyntaf mewn preswylydd neu aelod o'r staff. Mae cynnal profion cynnar ar yr holl breswylwyr a staff mewn achosion sydd newydd gael eu canfod yn rhywbeth sy'n debygol o leihau'r risg y bydd Covid-19 yn lledaenu. Dylai'r cartref gofal roi gwybod i Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ffonio 0300 003 0032, a gofyn am gyngor ganddynt. Dylai'r cartref gofal ofyn am brofion gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Manylion cyswllt y Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer cartrefi gofal

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
COVID-19.Testing.Unit.ABB@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
BCU.Covid19CareHomeTestingHub@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
cardiffandvalecommunicationhub@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
ctm_covid19@wales.nhs.uk neu 01656 752993

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
COVIDenquiries.hdd@wales.nhs.uk neu 0300 303 8322

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Sbu.neathpch@wales.nhs.uk neu 01639 862757 ar agor 09:00 hyd 20:00

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
pthbcovid19@wales.nhs.uk

Disgwylir y bydd Bwrdd Iechyd Lleol, pan fydd yn derbyn cais i brofi achosion a amheuir neu achosion symptomatig o Covid-19, yn trefnu i'r preswylwyr gael eu profi o fewn 24 awr ac i'r staff gael eu profi o fewn 48 awr. Os bydd Covid-19 yn cael ei gadarnhau, bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu i'r holl breswylwyr a staff gael eu profi, a bydd yn darparu'r holl ganlyniadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-profi-cartrefi-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

bwysig ynysu a chynnal profion torfol ar y staff a'r preswylwyr sy'n cydsynio, a hynny o fewn 24 awr ar ôl cael gwybod am yr achosion. Os bydd achosion yn cael eu canfod yn gynnar, dylid cynnig mwy o brofion i'r preswylwyr a'r staff a gafodd brawf negatif ar ôl wythnos. Os bydd mwy o achosion posibl yn bresennol, dylai'r Bwrdd Iechyd drefnu profion i gadarnhau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am gadarnhau canlyniadau'r profion i'r holl breswylwyr a staff, a hynny o ran rhai positif a negatif. Dylid darparu'r canlyniadau o fewn 48 awr. Bydd profion ar raddfa fawr yn arwain at oblygiadau i ddarparwyr cartrefi gofal. Bydd angen iddynt gynllunio ymlaen llaw â phartneriaid lleol ar gyfer y posibilrwydd y bydd angen i lawer o breswylwyr ynysu ac y bydd angen i lawer o aelodau o'r staff hunanynysu gartref.

Profi'r holl breswylwyr a staff mewn achosion sefydledig mewn cartrefi gofal

Mae digonedd o dystiolaeth i ddangos pa mor gyflym y mae Covid-19, fel y mae feirysau resbiradol eraill, yn lledaenu mewn cartrefi gofal. Er y bydd llai o fudd o ran lleihau lledaeniad y feirws yn gysylltiedig â chynnal profion ar yr holl breswylwyr a staff mewn cartref gofal lle mae achosion, y mae rhai manteision i hynny. Dylid cynnig profion i breswylwyr a staff sydd heb gael prawf positif erioed o Covid-19. Gallai'r profion hyn ganfod preswylwyr a staff asymptomatig positif o Covid-19 (pobl sydd heb fod yn dangos symptomau). Os na fydd unrhyw achosion pellach, bydd hyn yn rhoi sicrwydd fod y mesurau llym i atal a rheoli'r haint, megis defnyddio cyfarpar diogelu personol, yn effeithiol a bydd yn rhoi sicrwydd i'r staff, y preswylwyr a'u teuluoedd.

Mae'r model o gynnal profion ar gyfer achosion sefydledig yr un fath â'r un ar gyfer achosion newydd. Mewn achosion sefydledig, gallai llawer o'r staff sy'n dangos symptomau fod eisoes wedi hunanysysu am 10 diwrnod ac wedi dychwelyd i'r gwaith, tra gallai eraill fod yn hunanynysu o hyd. Bydd angen i ddarparwyr gynllunio ymlaen llaw â phartneriaid lleol ar gyfer y posibilrwydd y bydd mwy o aelodau o'r staff yn hunanynysu gartref.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-profi-cartrefi-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rheoli preswylwyr a staff sy'n cael prawf positif o Covid-19

Mae profion mewn cartrefi gofal sydd â Covid-19 wedi dangos y gallai preswylwyr a staff sy'n asymptomatig (pobl nad ydynt yn dangos symptomau) brofi'n bositif am Covid-19. Bydd llawer o'r rhain yn mynd ymlaen i ddatblygu symptomau. Mae tystiolaeth fod lledaeniad y feirws yn gallu digwydd cyn i bobl ddatblygu symptomau, ac mewn pobl na fydd byth yn datblygu symptomau. Dylai'r holl breswylwyr a staff sydd wedi cael prawf positif o Covid-19 fod yn ynysu yn unol â **chanllaw Iechyd Cyhoeddus Cymru**, ni waeth a oes ganddynt symptomau ai peidio.

Adroddiadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru

Rhaid i'r Byrddau Iechyd ddarparu adroddiad dyddiol i Arolygiaeth Gofal Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch profi mewn cartrefi gofal. Mae'r adroddiad ar y sefyllfa yn cynnwys y canlynol:

- enw'r cartref
- y rheswm dros brofi: achosion newydd, achosion yn parhau, cyfle i brofi mewn cartref sydd heb gael ei effeithio
- ar gyfer pob cartref, nifer y preswylwyr a'r staff a gafodd eu profi
- dylid diweddaru'r adroddiad pan fydd canlyniadau'r profion yn hysbys (nifer yr achosion positif o Covid-19 ymysg y preswylwyr a'r staff)

Dylid anfon hyn ar e-bost i **CIWInformation@gov.wales** a'i gopïo i **phw.covid19enclosedsettings@wales.nhs.uk**.

Dylid ei ôl-ddyddio er mwyn cofnodi data ar gartrefi gofal lle cynhaliwyd profion ar yr holl breswylwyr a staff.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-profi-cartrefi-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Canllawiau profi cartrefi gofal** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-profi-cartrefi-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-profi-cartrefi-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.